Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Neil Elliott
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Interim
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dyddiad: 01/03/2023

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gweithgarwch rhwng 7 a 10 Chwefror 2023. Diben yr adolygiad oedd rhoi proses graffu allanol ar waith, rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd arferion mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus.

**<u>Crynodeb o'r canfyddiadau:</u>**

1. **A oes dull systematig i sicrhau bod y trothwy ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi ei fodloni?**

1.1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) wedi llunio fframwaith er mwyn sicrhau bod y trothwy ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (ACG) wedi ei fodloni. Ailystyriwyd hyn yn ddiweddar fel rhan o adolygiad cynhwysfawr o'u prosesau ehangach mewn perthynas â'r ACG, a gafodd ei lywio gan adroddiad gweithgor cyfraith gyhoeddus Llywydd yr Is-adran Teuluoedd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

1.2. Buddsoddodd yr awdurdod lleol yn helaeth yn yr adolygiad hwn, a arweiniodd at fframwaith integredig wedi'i anelu at roi dull gweithredu mwy cydlynus a chyson ar waith. Mae'n cydnabod yr her ddiwylliannol sy'n wynebu'r awdurdod wrth sicrhau y caiff y fframwaith ei ystyried yn llawn wrth ymarfer.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7303
AGC@llyw.cymru

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1.3. Cafodd cyfres gynhwysfawr o ddogfennau diwygiedig ei datblygu yn ystod cyfnod peilot yr adolygiad hwn. Roedd map proses yr ACG yn rhan greiddiol o'r gyfres hon, a oedd yn cynnwys cyfres o ddogennau wedi'u mewnblannu, fel sail i'r penderfyniadau a wneir yn ystod pob cam o'r broses. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiol fersiynau o'r Adnodd Gwerthuso Gwaith Cymdeithasol (SWET), cais trothwy, cytundeb asesu'r ACG, a dadansoddiad o opsiynau wedi'i anelu at hwyluso'r broses gwneud penderfyniadau yn ystod cyfarfodydd porth.

1.4. Roedd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y ddogfennaeth newydd yn hygyrch ac yn cynnig adborth cadarnhaol i'w helpu i wneud penderfyniadau cyson ac amserol. Roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn y cofnodion gofal cymdeithasol diweddaraf a welsom.

1.5. Gwelsom dystiolaeth dda fod dull gweithredu seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn sail i ymarfer, yn unol ag egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.6. Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau gofal a chymorth a welsom yn canolbwyntio ar y plentyn, yn drylwyr ac yn amserol, ac roedd yr enghreifftiau gorau wedi'u hategu gan asesiadau ac adolygiadau cyfredol, wedi'u hwyluso drwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth priodol, gyda chyfraniad gan bartneriaid amlasiantaethol.

1.7. Roedd y cofnodion gofal cymdeithasol yn nodi pryderon yn glir, a gwelsom fod y ddogfen dadansoddi opsiynau fanwl yn cael ei defnyddio fel sail i wneud penderfyniadau cytbwys a oedd er budd pennaf y plant a'r bobl ifanc, gan ystyried amrywiaeth o ffactorau cysylltiedig. Mae proses cyn-achos yr ACG, a ddiwygiwyd yn ddiweddar, yn cynnwys sawl pwynt sy'n sbarduno proses o ystyried risgiau, ac a yw hyn yn ymarferol o dan y trefniadau presennol.

1.8. Yn yr enghreifftiau gorau a welsom, roedd y broses o nodi a dadansoddi risgiau cyn-achos wedi'i chyflwyno'n effeithiol, gan nodi'n glir y sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan arwain at opsiynau cadarnhaol i'r rhieni a'r plant. Lle roedd yn ofynnol, roeddent wedi'u hategu gan fynediad at gyngor cyfreithiol brys, gan gynnwys y tu allan i oriau.

1.9. Mae atal teuluoedd rhag chwalu a helpu teuluoedd i barhau'n unedig yn rhan flaenllaw o ymarfer gweithwyr cymdeithasol. Mae'n amlwg bod yr ymarferwyr yn adnabod y teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw yn dda, a gwneir ymdrechion i sicrhau parhad cydberthnasau lle bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau hefyd lle roedd plant a theuluoedd wedi profi newid mewn gweithiwr cymdeithasol, gan darfu'n anochel ar gydberthnasau allweddol. Clywsom hefyd gan bartneriaid am achosion lle roedd prinder staff â phrofiad addas wedi arwain at oedi wrth gwblhau asesiadau mewn modd amserol.

1.10. Roedd yn amlwg bod y cynnydd cyson o ran y galw wrth y drws ffrynt, ynghyd â'r anawsterau parhaus wrth recriwtio a chadw staff â'r cymwysterau a'r profiad addas, yn parhau'n her i'r Cyngor, fel llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod disgwyl i adolygiad o'r ffactorau y tu ôl i'r cynnydd diweddar yn y galw am wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gael ei gwblhau ym mis Mai eleni. Yn ogystal, gwnaed

gwaith sylweddol mewn perthynas â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu drwy'r polisi newydd ar gyfer strategaeth y gweithlu.

1.11. Mae sesiynau goruchwylio gweithwyr cymdeithasol yn rhoi ffocws penodol ar gynlluniau gofal a chymorth, a gwelsom fod amserlenni yn cael eu monitro mewn ffordd ragweithiol er mwyn osgoi oedi lle bynnag y bo'n bosibl.

1.12. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau plant a'r tîm cyfreithiol yn goruchwylio'r trefniadau ar gyfer olrhain achosion yn ffurfiol drwy bob cam o broses yr ACG. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen trefniadau mwy trylwyr ar gyfer monitro a goruchwylio'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r ACG, ac maent wedi nodi'r maes hwn fel un i'w wella gan ddefnyddio cronfa ddata System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) erbyn mis Medi 2023.

1.13. Gwelsom o'r dystiolaeth yn y dogfennau fod cyngor cyfreithiol o ansawdd da ar gael yn hawdd a chadarnhawyd hynny yn ystod cyfweliadau â'r staff. Clywsom fod cydberthnasau da rhwng y tîm cyfreithiol a'r gweithwyr cymdeithasol sy'n helpu i roi prosesau'r ACG ar waith mewn modd amserol ac effeithiol. Mae'r ddogfen drothwy yn cynnwys adran ddiffiniedig ar gyfer cofnodi cyngor cyfreithiol, sy'n golygu bod y mewnbwn hwn wedi'i nodi ar wahân i'r asesiad gan y gweithwyr cymdeithasol, gan bwysleisio'r ffaith bod dull gweithredu'r Cyngor wedi'i lywio gan wybodaeth broffesiynol.

1.14. Mae teuluoedd sy'n destun gwaith cynllunio cyfreithiol a gwaith cyn-achos yn cael cymorth eang a chyfleoedd i wneud newidiadau effeithiol, cyn y caiff camau cyfreithiol pellach eu cymryd, hyd yn oed pan fydd y trothwy cyfreithiol ar gyfer ymyriadau wedi'i fodloni. Gwelwyd tystiolaeth a oedd yn dangos pan fyddai rhieni yn ymgysylltu'n llwyddiannus er mwyn helpu i wella bywydau eu plant, y byddai'r gwaith cynllunio cyfreithiol yn dod i ben ond y byddai gwasanaethau gofal a chymorth priodol yn parhau fel y bo angen. Lle na chaiff y gwelliannau a nodwyd eu cyflawni, mae'r awdurdod lleol yn cymryd camau amserol ac awdurdodol.

## 2. A oes trefniadau effeithiol ar waith er mwyn hysbysu rhieni a gofalwyr am drefniadau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r hyn y mae'r broses hon yn ei olygu?

2.1. Gan adlewyrchu ei ymrwymiad i'w wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar a chan gydnabod y rôl allweddol a gaiff ei chwarae gan y gwasanaethau hynny, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

2.2. Mae darpariaeth sefydledig ac amrywiol ar gael i blant a theuluoedd, gan gynnwys y Gwasanaeth Teuluoedd Gwydn, y Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a gwasanaeth Meisgyn. Roedd un rhiant y gwnaethom siarad ag ef yn uchel iawn ei glod am y mewnbwn a'r cymorth roedd wedi'u cael gan wasanaeth Meisgyn. Mae'r gwasanaeth mewnol hwn yn anelu at ddarparu ymyriadau dwys sy'n canolbwyntio ar y teulu dros gyfnod o hyd at 16 wythnos, gyda'r nod o wella gallu rhianta unigolion a helpu'r rhieni i ofalu am eu plant â chyn lleied o ymyriadau statudol â phosibl.

2.3. Roedd yn amlwg bod gan y gweithwyr cymdeithasol a'u huwch-reolwyr ddealltwriaeth dda o'r ffordd y mae trefniadau cyn-achos yr ACG yn gweithio, ac ymrwymiad i hysbysu plant a theuluoedd am yr hyn y mae'r broses yn ei olygu iddyn nhw.

2.4. Fodd bynnag, cânt eu hatal ar hyn o bryd rhag cyfleu'r wybodaeth hon yn y ffordd orau gan nad oes llawer o wybodaeth hygyrch am y broses, os o gwbl, ar gael i deuluoedd a phlant. Clywsom fod yr ymarferwyr yn treulio amser yn esbonio'r broses ei hun a'i goblygiadau penodol i'r unigolion hynny dan sylw, i'w helpu i ddeall proses a all fod yn gymhleth yn well. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes gwybodaeth ategol i blant nac i rieni/gofalwyr yn anochel yn eu hatal rhag cyflawni'r amcan hwn yn llwyddiannus, ac mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod hwn yn faes y mae'n rhaid ei wella.

2.5. Mae'n amlwg bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud yn ddiweddar i ohebiaeth y Cyngor â rhieni, er enghraifft i'r ‘llythyr cyn gweithredu’ er mwyn gwella eglurder a hygyrchedd y ddogfen hon.

2.6. Gwelsom enghreifftiau o ddulliau amserol ac integredig o roi cymorth effeithiol o dan amgylchiadau cymhleth gan amrywiaeth o bartneriaid, gyda darpariaeth wedi'i chydgysylltu'n dda yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

2.7. Roedd gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a rhai a recriwtiwyd yn ddiweddar gan y Cyngor yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â hyfforddiant mewn pynciau penodol, gan gynnwys yr ACG a phrosesau cysylltiedig. Byddai'n fuddiol cynnwys staff o asiantaethau eraill fel iechyd ac addysg mewn mentrau o'r fath, a thrwy hynny wella'r ddealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau penodol ym mhroses yr ACG.

## 3. A yw'r trefniadau cynllunio gofal yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd amserol i blant a phobl ifanc er mwyn cyflawni canlyniadau da?

3.1. Mae'r gwaith o gynllunio gofal a chymorth yn amserol ac yn ystyrlon ac yn seiliedig ar ganlyniadau diogelwch a llesiant y plentyn. Gwelwyd enghreifftiau o gymorth creadigol yn y pecynnau gofal a chymorth a adolygwyd, ac o ganlyniad, llwyddodd y gwasanaethau i ddarparu ymatebion penodol er mwyn cyflawni canlyniadau wedi'u teilwra at yr unigolyn. Gwelsom fod cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a bod diweddariadau ar gynnydd wedi'u cynnwys.

3.2. Roedd cymorth yn cael ei roi yn gyflym tra roedd asesiadau yn cael eu cwblhau, ac roedd y cynlluniau gofal a chymorth dilynol a welsom yn cynnwys amserlenni realistig ar gyfer cyflawni'r canlyniadau penodedig. Caiff cynnydd plant sydd â chynlluniau gofal a chymorth, cynlluniau amddiffyn plant a chynlluniau plant sy'n derbyn gofal, ei adolygu'n rheolaidd, yn unol â'r canllawiau.

3.3. Caiff camau diogelu amserol eu cymryd lle bo risg o niwed, a chaiff achosion eu cyfeirio'n gyflym at broses yr ACG pan fo angen. Gwelwyd tystiolaeth fod cymorth effeithiol yn cael ei roi gan bartneriaid fel rhan o'r broses ddiogelu, drwy lefelau presenoldeb da mewn cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau achos cychwynnol.

3.4. Mae gweledigaeth yr awdurdod lleol a nodwyd yn ei Bolisi Parhad yn 2018 yn dangos yn glir mai cam cyntaf y broses o gynllunio parhad yw gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i'w helpu i aros gyda'i gilydd, ond gan ystyried hynny yn erbyn unrhyw risg o niwed i'r plentyn. Mae'n nodi hefyd lle bo angen i blentyn adael ei deulu, y dylai hynny fod am y cyfnod byrraf sydd ei angen i sicrhau y gall ddychwelyd i'w gartref yn ddiogel â chymorth. Gwelsom fod yr ymrwymiad hwn i gadw plant a theuluoedd gyda'i gilydd ar waith yn nifer o'r achosion a adolygwyd gennym.

3.5. Mae'r ffurflen dadansoddi opsiynau sy'n rhan o broses yr ACG yn cefnogi trefniadau cynllunio parhad amserol i blant a'u teuluoedd. Lle ceir newidiadau sylweddol yn ystod proses yr ACG, gofynnir am gyngor gan weithwyr proffesiynol priodol mewn modd amserol er mwyn cynyddu neu leihau lefel yr ymyriadau fel y

bo'n ofynnol, gan felly helpu i leihau'r oedi wrth wneud penderfyniadau. Roedd gwaith cynllunio wrth gefn yn ffocws clir mewn rhai asesiadau, ond mae angen rhagor o waith i sicrhau y caiff yr ymarfer da hwn ei roi ar waith yn ehangach fel y bo'n briodol.

3.6. Nododd cynllun peilot ACG a gwblhawyd yn ddiweddar fod angen gwella'r gwasanaethau a gynigir i blant heb eu geni a phlant newydd-anedig. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r awdurdod lleol wedi cytuno'n ddiweddar i fuddsoddi adnoddau sylweddol i roi prosiect MAGU ar waith. Mae'r prosiect hwn yn anelu at ddarparu llwybr gofal integredig i fenywod beichiog a'u teuluoedd ym mhob rhan o'r gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a'r gwasanaethau ymyl gofal, gan ganolbwyntio ar feithrin sgiliau a gwydnwch a thrwy hynny leihau risg.

3.7. Cydnabuwyd yr angen i gael cynlluniau parhad cynnar ac effeithiol a gweithredwyd mewn ymateb i hynny drwy ddefnyddio cynadleddau grŵp teulu (CGT), a nodwyd yn rhai o'r cofnodion a welsom. Pan oeddent yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, roedd CGTau yn amlwg yn cefnogi teuluoedd a'u rhwydweithiau ehangach i deimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn llywio ymdrechion i hwyluso gofal a chymorth seiliedig ar gryfderau.

3.8. Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau yn cefnogi casgliad yr awdurdod lleol ei hun y byddai o bosibl yn fwy buddiol mewn nifer o amgylchiadau i ddefnyddio CGTau yn ystod cam cynharach o broses cyn-achos yr ACG. Er enghraifft, gallai mwy o gyfleoedd i ailfframio rhai o'r sgyrsiau a geir am rwydweithiau cymorth anffurfiol helpu i leihau oedi diangen wrth nodi ac asesu gofalwyr amgen os bydd angen gofalwyr o'r fath.

3.9. Cydnabyddir mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid ystyried mynd i'r llys, ac mai dim ond pan fydd diogelwch a llesiant y plentyn yn gofyn am hynny a bod y trothwy cyfreithiol wedi'i fodloni y caiff achos llys ei gychwyn.

## 4. A yw'r trefniadau yn hyrwyddo arferion sy’n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn?

4.1. Ceir ethos hawliau plant cryf a chaiff y plant gymorth i ddeall eu hawliau a'u hawliadau. Er eu bod yn cael eu hannog i gael gafael ar gymorth eirioli er mwyn sicrhau y caiff eu llais ei glywed, cydnabu'r awdurdod lleol yr angen i hyrwyddo mynediad i wasanaethau eirioli yn gynharach yn ystod y broses ac i wneud hynny mewn ffordd fwy pendant, yn hytrach na dim ond cofnodi bod y ‘cynnig rhagweithiol’ wedi cael ei wneud. Dim ond tystiolaeth gyfyngedig a welsom i ddangos bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gwneud ymdrech weithredol i ystyried a fyddai cymorth eirioli o fudd i'r plentyn neu aelodau o'i deulu.

4.2. Nid oedd yn glir pa drefniadau penodol oedd ar waith i helpu plant anabl a phlant â gallu cyfathrebu cyfyngedig i gael gafael ar y mathau arbenigol neu estynedig o gymorth eirioli y gallai fod eu hangen arnynt. Cyn yr arolygiad, mae'r awdurdod wedi comisiynu Gwasanaethau Eirioli TGP Cymru a all ddarparu gwasanaethau i blant o bob oedran neu allu.

4.3. Yn yr un modd, roedd yr angen i atgyfnerthu'r cymorth eirioli sydd ar gael i rieni yn ystod amrywiol gamau o'r broses eisoes wedi cael ei gydnabod, a chawsom wybod am gynlluniau i wella'r cymorth hwn o fis Ebrill eleni.

4.4. Clywsom yn uniongyrchol gan un rhiant a oedd yn teimlo ei fod wedi gallu cymryd rhan llawer mwy cyflawn yn y broses ar ôl cael cymorth i gael gafael ar gymorth eirioli anffurfiol. Fodd bynnag, mewn achos arall a oedd yn ymwneud â rhiant â

rhwydweithiau cymorth cyfyngedig ac y nodwyd ei fod yn agored i niwed ei hun, nid oedd unrhyw sôn yn y cofnod gofal cymdeithasol fod unrhyw gymorth eirioli wedi cael ei ystyried na'i gynnig.

4.5. Mae'r gweithwyr cymdeithasol yn ymdrechu i ddeall safbwynt y plentyn a'i gynnwys, mewn ffordd sy'n briodol o ran oedran, yn ei asesiadau a'i gynlluniau. Unwaith eto, clywsom gan ymarferwyr fod ymdrechion yn cael eu gwneud drwy ddulliau cyfathrebu estynedig ac adnoddau cydnabyddedig eraill i ddeall profiad bywyd plant ifanc neu blant ag anableddau a'u cynrychioli'n effeithiol. Fodd bynnag, roedd y ddealltwriaeth ddofn hon a gwybodaeth unigol yn fwy amlwg yn ein trafodaethau â gweithwyr, ac nid oeddent o reidrwydd wedi'u cynrychioli'n dda yn gyson yn y cofnod ysgrifenedig a ddefnyddiwyd i lywio'r penderfyniadau a wnaed.

4.6. Clywsom gan y ddau barti am y cydberthnasau cadarnhaol a feithriniwyd rhwng Cafcass a'r gwasanaethau plant, wedi'u cefnogi gan gyfarfodydd bob deufis. Roedd cynlluniau ar gyfer y dyfodol hefyd i'r trefniadau hyn gynnwys cyfleoedd hyfforddi pellach i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso. Roedd yn amlwg bod trefniadau ar gyfer hysbysu Cafcass yn ystod cam cynnar o'r broses y byddai angen mewnbwn ganddo mewn achosion arfaethedig, fel yr argymhellwyd yn adroddiad mis Mawrth 2021, wedi bod yn ymarfer safonol ers cryn amser yn y Cyngor.

Bydd AGC yn cyhoeddi adroddiad trosolwg cenedlaethol cryno yn seiliedig ar ein canfyddiadau yn ystod Gwanwyn 2023. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd gyda'r trefniadau ar gyfer y gweithgarwch hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Yn gywir



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**